| CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD (2011 - 2026) | |
|---|---|
| **ARCHWILIAD CYHOEDDUS:**<br>**Sesiwn Gwrandawiad 16 - Monitro a Gweithredu a Materion Amrywiol** | CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |

**Pwynt Gweithredu 42 (S16/PG42) – Mapiau Cynigion a Chyfyngiadau**

1. Diwygio'r mapiau cynigion i gynnwys yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig
2. Diwygio'r mapiau cynigion i gynnwys yr Ardaloedd Gwarchod Mwynau
3. Adolygu'r system mapio ar lein (mapiau cynigion a chyfyngiadau)
4. Ystyried sut mae'r wybodaeth ar y mapiau cyfyngiadau yn cael ei gyflwyno

**Ymateb y Cynghorau:**

1. Mewn canlyniad i'r Newid Materion sy'n Codi i Bolisi AMG 1 fe fydd yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn cael eu dangos ar y Mapiau Cynigion yn hytrach na'r Mapiau Cyfyngiadau. Mae'r Gofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi ( a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus) yn cadarnhau hynny ac yn dangos ehangder yr haen wybodaeth a fydd yn cael ei symud o'r naill le i'r llall. Bydd copi caled a rhyngweithiol o'r Cynllun terfynol yn ymgorffori'r Newid yma.

2. Mewn canlyniad i'r Newid Materion sy'n Codi i bolisi MWYN1 fe fydd yr Ardaloedd Gwarchod Mwynau yn cael eu dangos ar y mapiau cynigion yn hytrach na'r Mapiau Cyfyngiadau. Mae'r Gofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi ( a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus) yn cadarnhau hynny ac yn dangos ehangder yr haen wybodaeth a fydd yn cael ei symud o'r naill le i'r llall. Bydd copi caled a rhyngweithiol o'r Cynllun terfynol yn ymgorffori'r Newid yma

3. Mae'r system ryngweithiol o'r Mapiau Cynigion a Chyfyngiadau wedi cael ei adolygu ac mae camau wedi cael eu cymryd er mwyn sicrhau nad yw'r holl haenau yn llwytho'n awtomatig efo'i gilydd, gan olygu fod angen i'r darllenydd ddewis yr haen neu'r haenau perthnasol. Golygai'r newid yma fod y wybodaeth yn llwytho'n gynt ac yn llawer iawn mwy hygyrch i unigolion sydd yn dymuno archwilio'r mapiau.

4. Yn sgil yr holl wybodaeth sydd yn cael ei ddangos ar y Mapiau Cyfyngiadau a'r Mapiau Cynigion, mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r modd mae'r wybodaeth yn cael ei gyflwyno, a hynny'n benodol ar gyfer y fersiwn papur o'r ddogfen. Mae'r Cynghorau yn mynd i drefnu fod y Mapiau ar gyfer ardal y Cynllun yn cael eu rhannu i is-ardaloedd ychwanegol a fydd yn sicrhau bydd y wybodaeth yn fwy gweladwy arnynt oherwydd bydd graddfa'r mapiau yn fwy manwl. Yn ychwanegol, bydd arddull yr haenau, h.y. lliw a'r patrwm a ddefnyddir, yn cael ei fireinio. Bydd hyn yn sicrhau bydd copïau caled o'r Mapiau terfynol yn glir ac felly'n hawdd eu darllen. Fe fydd esiampl o'r isardaleodd a'r dull diwygiedig o gyflwyno'r mapiau yn cael eu cyflwyno i'r Arolygydd er mwyn ei archwilio mewn da bryd cyn i'r Archwiliad Cyhoeddus gau.